**CYNLLUN DATBLYGU LLEOL AR Y CYD**

**Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd**

**26 Mehefin 2015**

**Ystafell Bwyllgor 1, Llangefni**

**Presennol:**

**Cyngor Sir Ynys Môn**

Cyng. Lewis Davies

Cyng. Richard Dew

Cyng. Ann Griffith

Cyng. Victor Hughes

**Cyngor Gwynedd**

Cyng. Gwen Griffith

Cyng. John Brynmor Hughes

Cyng. Dyfrig Jones

Cyng. Dafydd Meurig

Cyng. John Pughe Roberts

Cyng. John Wyn Williams

Cyng. Owain Williams

**Swyddogion:**

| | |
|---|---|
| Rhun ap Gareth | Uwch Gyfreithiwr (CG) |
| Nia Haf Davies | Rheolwr - UPCC |
| Gareth Jones | Uwch Reolwr Gwasanaeth Cynllunio, Amgylchedd a Gwarchod y Cyhoedd (dros dro) (CG) |
| WE Jones | Uwch Reolwr Cyllid (CG) |
| Jim Woodcock | Pennaeth Gwasanaeth Cynllunio & Gwarchod y Cyhoedd (CSYM) |
| Eirian Harris | Cynorthwy-ydd Cynllunio Cefnogol - UCC |

**Ymddiheuriadau:**

Cyng. John Arwel Roberts (CSYM)

Cyng. Nicola Roberts (CSYM)

1. **CADEIRYDD**

   Cafodd Cyng Dafydd Meurig ei ethol fel Cadeirydd y Pwyllgor a Phanel CDLl ar y Cyd am y cyfnod 2015 – 2016

2. **IS-GADEIRYDD**

   Cafodd Cyng Richard Dew ei ethol fel Is-Gadeirydd y Pwyllgor a Phanel CDLl ar y Cyd am y cyfnod 2015 - 2016.

3. **YMDDIHEURIADAU**

   Fel nodwyd uchod.

4. **DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

   Dim

5. **MATERION BRYS**

   Dim

6. **COFNODION**

   Derbyniwyd Cofnodion Pwyllgor 18 Rhagfyr 2014 fel y rhai cywir a chafwyd eu harwyddo gan y Cadeirydd.

7. **DATGANIAD LLYWODRAETH AR GYFER Y PWYLLGOR POLISI CYNLLUNIO AR Y CYD**

   Cyflwynwyd adroddiad gan Gareth Jones oedd yn cynnwys y Datganiad Llywodraethu ar gyfer y Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd. Mae'n ofyniad statudol bellach bod datganiadau o'r math yma'n cael eu paratoi. Eglurwyd bod gofynion y Rheoliadau wedi newid ers y llynedd. Golyga hyn na fydd angen cyflwyno'r Datganiad i'r Pwyllgor eto yn ystod 2015 – 16, oni bai bod Swyddfa Archwilio Cymru yn argymell newidiadau iddo. Cafodd y Datganiad ei arwyddo gan y Cadeirydd ar ran y Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd.

8. **CYFRIFON TERFYNOL Y PWYLLGOR POLISI CYNLLUNIO AR Y CYD (hyd diwedd Mawrth 2015)**

   Cyflwynwyd adroddiad gan W E Jones oedd yn ymateb i ofyniad statudol o dan Adran 12 o Ddeddf Archwilio Gyhoeddus (Cymru) 2004 i adrodd yn benodol am gyfrifo ac archwilio cyfrifon Pwyllgorau ar y Cyd.

   Eglurwyd fod angen cwblhau ffurflenni swyddogol ar gyfer Swyddfa Archwilio Cymru a byddai'r ffurflenni'n destun archwiliad ar wahân.

   Cyflwynwyd copi o'r ffurflenni yn Atodiad A & B. Bydd yr Archwilydd Penodedig yn archwilio'r wybodaeth. Esboniwyd i'r Pwyllgor nad oes angen ail-gyflwyno'r adroddiad

i’r Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd ym mis Medi 2015 (cyn iddo gael ei ardystio gan yr Archwiliwr) oherwydd newid yn y drefn, oni bai bydd angen tynnu sylw’r Pwyllgor at newidiadau argymhellir gan yr Archwilydd Penodedig.

**Pwyntiau a Godwyd:**

- Cafwyd ymholiad ynglŷn a gorwario a thanwario ar wahanol elfennau, gan holi os oedd yna gyfleoedd i arbed arian yn ystod 2015 – 2016.
- Esboniwyd bod gwaith yn cael ei wneud ar ddechrau pob blwyddyn ariannol er mwyn ceisio rhagweld beth fyddai’r gwariant yn ystod y flwyddyn honno. Mae hynny’n seiliedig ar wybodaeth sydd ar gael am wneud gwaith tebyg o’r blaen a ffactorau eraill. Mae llwyddiant yr Uned i allu ymgymryd â gwaith ei hun yn hytrach na chomisiynu gwaith yn enghraifft o ffactor sydd yn golygu bod llai o arian wedi cael ei wario na ragwelwyd yn ystod 2014 - 2015.
- Esboniwyd fod costau helaeth i ddod cyn gellir symud y Cynllun ymlaen i’r cam mabwysiadu, h.y. costau’n gysylltiedig â’r archwiliad cyhoeddus.

Fe gafodd y datganiad ei gymeradwyo gan y Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd, a’i arwyddo ar ran y Pwyllgor gan y Cadeirydd.